# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Remote Meeting on Dydd Mawrth, 13eg Hydref, 2020 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
|---|---|
| County Councillor T.Thomas (Chairman)<br>County Councillor L. Brown (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: M.Groucutt, M.Lane, M. Powell and J.Watkins | Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant<br>Sharon Randall-Smith, Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad<br>Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Lucie Doyle, Educational Psychologist<br>Rebecca Stanton, Family Support Services Manager<br>Morwenna Wagstaff, Area Educational Psychologist |

**APOLOGIES:** County Councillors L.Jones and D. Jones

1. **Nodi penodiad y Cynghorydd Sir T. Thomas fel Cadeirydd.**

   Cadarnhawyd mai'r Cynghorydd Tudor Thomas yw cadeirydd y pwyllgor.

2. **Penodi Is-gadeirydd.**

   Fe wnaeth y Cynghorydd Jo Watkins gynnig y Cynghorydd Louise Brown. Eiliwyd gan y Cynghorydd Maureen Powell a derbyniwyd gan y Cynghorydd Brown

3. **Datganiadau o Fuddiant**

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

4. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

5. **Cymorth Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Plant Bregus**

   Cyflwynodd y swyddogion Jane Rodgers a Rebecca Stanton y cyflwyniad ac atebodd gwestiynau aelodau, gydag ymatebion ychwanegol gan Will Mclean.

   **Her:**
   *Yn ystod y cyfnod clo, byddech wedi disgwyl effaith oherwydd nad oedd ysgolion yn atgyfeirio i'ch tîm. O ble daeth yr atgyfeiriadau bryd hynny?*

Ni wnaeth y gyfradd atgyweirio ostwng yn sylweddol yn ystod y cyfnod clo. Roedd llawer o atgyfeiriadau gan yr Heddlu, yn bennaf yn ymwneud â cham-drin domestig. Roedd hefyd hunan-atgyfeiriadau gan rieni oedd yn ei chael yn anodd gyda'r problemau oedd yn effeithio ar eu teulu yn ystod y cyfnod hwn. Ni ddaeth darpariaeth cymorth cynnar i ben, na chwnsela mewn ysgolion; felly er nad oeddem yn cael atgyfeiriadau'n syth i Gwasanaethau Plant, roedd gennym y cyfathrebu agored hwnnw gyda'r gwasanaethau help a chymorth cynnar. Felly, pan ddaeth problemau i'r amlwg, roedd modd i ni gael yr atgyfeiriadau. Mae problemau o fewn teuluoedd yn dod yn amlwg er y gallai'r ysgolion fod ar gau – mae ysgolion yn atgyfeirwyr mawr, ond felly hefyd y Gwasanaeth Iechyd a'r Heddlu. Gwelsom gynnydd cyson pan ddaeth ysgolion yn ôl ond yr Heddlu sy'n parhau i atgyfeirio mwyaf.

*A oes tystiolaeth o gynnydd mewn trais domestig yn ystod cyfnod clo?*

Yn anffodus, nid ydym dod i wybod am bob cam-drin domestig. Po fwyaf y gallwn greu amodau lle gall plant a phobl ifanc rannu'r hyn sy'n digwydd gartref drwy wasanaethau a ddarperir gan y tîm cymorth i deuluoedd, y mwyaf y gallwn geisio mynd i'r afael â'r problemau hynny yn gynnar. Fel y soniwyd eisoes, mae lefel atgyfeiriadau heddlu wedi cynyddu – mae'r mwyafrif ohonynt yn ymwneud â cam-drin domestig.

*Yng nghyswllt cyfarfodydd rhieni dan oruchwyliaeth, os yw dau deulu yn cwrdd a fydd risg o drosglwyddo feirws? Ond os dychwelwn i gyfarfodydd rhithiol, a fydd hynny'n effeithio ar gydnerthedd plant?*

Buom yn glir am beidio troi digidol i ffwrdd yn llwyr – rydym wedi parhau i gynnig y ddau ddull. Rhan o'r rhesymeg dros hynny oedd, os byddwn yn dychwelyd i gyfnod glo llawn, na fydd plant dan anfantais, byddwn yn syml yn cynyddu'r elfen ddigidol. Yn ddi-os, fodd bynnag, bydd effaith ar blant sydd eisiau gweld eu rhieni nad ydyn nhw'n byw gyda nhw. Cafodd ein canolfannau cyswllt a chanolfannau amser teulu asesiad risg manwl, ac mae'r rheoli sy'n mynd gyda sut mae teuluoedd yn chwarae gyda teganau, y system lanhau ac yn y blaen, i gyd yn ei le. Felly, lle'r ydym yn dal i fedru cael cyswllt wyneb-i-wyneb, cafodd y camau angenrheidiol eu rhoi yn eu lle yn gywir.

*Faint o'ch staff oedd yn fregus ac angen iddynt ynysu, a beth oedd pwysau cyfraddau absenoldeb? A allwn gefnogi hynny fel awdurdod?*

Bu pwysau cymdeithasol ac emosiynol sylweddol ar staff. Byddwn yn parhau i wneud beth bynnag a fedrwn i gefnogi eu cydnerthedd. Mae mynd i mewn i'r cyfnod hwn yn anodd. Nid yw ein cyfraddau absenoldeb dros y cyfnod wedi bod i'r graddau y mae effaith go iawn ar y gwasanaeth; mewn gwirionedd, buont yn rhyfeddol o dda. Roedd angen i rai unigolion fod ar y rhestr warchod, neu mewn cartrefi lle'r oedd rhywun ar y rhestr warchod – rydym wedi gweithio'n ofalus gyda nhw, ac wedi cynnal asesiad risg arnynt i weld beth fedrant ei wneud. Gallodd llawer o'r bobl hynny barhau i weithio gartref. Fe wnaethom fonitro'r data yn y maes hwn yn agos iawn rhag ofn ein bod yn cyrraedd lefelau critigol o brinder staff.

*Beth yw eich sylwadau cyffredinol ar oblygiadau y posibilrwydd o ail gyfnod clo cenedlaethol?*

Mae'n anodd iawn dweud. Rydym wedi paratoi'n well ar gyfer y cyfnod clo nawr nag oeddem y tro cyntaf. Rydym wedi gwneud llawer o waith i'n gwneud ein hunain yn weithredol ac yn deall rhai o'r heriau yn well, a'r ffyrdd y gallwn eu lliniaru. Byddem yn sicr yn bryderus am yr effaith ar deuluoedd, ac rydym yn arbennig felly am lesiant emosiynol hirdymor y plant a phobl ifanc.

*A ydych yn gobeithio cadw'r bartneriaeth gyda banciau bwyd yn gweithio?*

Ydym, mae hyn yn uchel iawn ar ein hagenda. Rydym yn siarad gyda chydweithwyr sy'n rhedeg y banciau bwyd ac yn gwneud y gwaith cymunedol am sut y gallwn barhau'r gwaith hwnnw. Rydym hefyd yn edrych sut i ddod â'r trydydd sector i mewn, i wneud mwy o ddull gweithredu cymuned gyfan. Rydym hefyd yn cynnal arolwg drwy ein panel cymorth cynnar, i sicrhau y caiff ein bwriadau eu derbyn yn yr un ffordd gan y teuluoedd, ac i gael gwared ag unrhyw broblemau. Bu'n rhaid i ni fod yn ofalus i weithio gyda chydsyniad, a bod yn dryloyw i deuluoedd am rannu gwybodaeth rhwng y timau.

*A oes gennym syniad pam fod cyfraddau atgyfeirio wedi cynyddu? Pwysau neilltuol?*

Bu cynnydd mewn problemau presennol a deinameg teuluol oherwydd pwysau Covid. Bu cyllid yn un o'r problemau. Nodwedd fawr arall ar gyfer plant a phobl ifanc fu pryder o amgylch y pandemig a diffyg diwedd arno, sydd wedi codi teimladau o alar a cholled: mae plant wedi colli blwyddyn yn yr ysgol, gweithgareddau gyda ffrindiau ac, wrth gwrs, bu llawer o farwolaethau mewn teuluoedd. Rydym wedi gweithio'n galed ar sut i dderbyn a thrin galar a cholled mewn gosodiad teulu. Anelwn gynnal y digwyddiad Cofio blynyddol am alar a cholled yn rhithiol eleni. Rydym hefyd yn cadw golwg agos ar gamfanteisio ar-lein, yn droseddol ac yn rhywiol, camddefnydd o sylweddau ac alcohol ac iechyd meddwl rhieni.

*Pa gefnogaeth mae plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ei dderbyn, nawr nad oes ysgol arbenigol iddynt (gyda Tŷ Mounton wedi cau)?*

Ie, dyma rai o'n plant mwyaf bregus yn ystod y cyfnod hwn. Ni allai pob un ohonynt fynd i'w hysgolion, yn bendant yn ystod cyfnod clo. Ein rôl yw rhoi seibiant a chefnogaeth i blant gydag anableddau, a gwnaethom hynny drwy ein gwasanaeth cymorth anabledd Gweithredu dros Blant: fe wnaethom dreulio nifer o oriau bob dydd gyda rhai o'n plant mwyaf bregus yn ystod y cyfnod hwn er mwyn rhoi seibiant i'r teulu a cheisio cadw rhyw fath o drefn arferol. Roedd gennym ein gwasanaeth seibiant dydd, lle gallai plentyn fynd yn ystod y dydd, ac roedd rhieni'n parhau i ddefnyddio taliadau uniongyrchol yn ystod y cyfnod hwn. Felly er na allwn byth gymryd lle'r hyn y byddai plentyn yn ei gael o ysgol, gallwn roi cymorth ychwanegol lle mae ei angen.

Roedd llawer iawn o waith cadarnhaol rhwng cydweithwyr Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Cymdeithasol drwy gydol y cyfnod clo er mwyn sicrhau ein bod yn gwybod am yr holl blant a fedrai fod angen cymorth, a sicrhau y gallai plant bregus gael mynediad i gymorth a dysgu. Mae'n bwysig cofio fod Tŷ Mounton ar agor drwy gydol y cyfnod hwnnw, felly roedd yn rhoi cefnogaeth ac addysg i'r plant yn ystod y cyfnod clo. Mae nifer o blant a gefnogwn, yn aml mewn cysylltiad gyda Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n gorfod mynd i ysgolion tu allan i'r sir: mewn rhai achosion roeddent wedi medru parhau i fynychu'r ysgol, ond os na, roeddem yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion i sicrhau eu fod yn cadw eu cysylltiad gyda'r plant. Nid yw ein disgwyliadau am ysgolion tu allan i'r sir yn ddim gwahanol i'n disgwyliadau gan y rhai yn y sir.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Mynegodd yr aelodau eu diolch am waith y swyddogion a'u cydweithwyr. Mae'n gysur bod Gwasanaethau Plant wedi ymateb yn gyflym, mewn sefyllfa anodd iawn. Fe wnaeth yr ysgolion ymateb yn dda iawn hefyd. Cawsom adroddiad cynhwysfawr am sut y gweithredodd Gwasanaethau Plant yn ystod y cyfnod hwn yn rhithiol, ac yn gynyddol – wyneb yn wyneb. Rydym yn ddiolchgar am y cwestiynau a atebwyd am drais yn y cartref, sy'n bryder mawr yn i'r pwyllgor hwn. Mae'n dda clywed fod y gwasanaeth wedi parhau i ddynodi plant a theuluoedd sydd mewn risg, ac wedi rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol. Rydym hefyd yn falch i glywed am y strategaethau ar gyfer cefnogi staff. Roedd yn dda clywed fod atgyfeiriadau'n parhau, a bod absenoldeb staff yn isel. Fe wnaethom hefyd glywed am y gwaith parhaus gyda sefydliadau allanol.

6. **Cymorth Seiliedig mewn Ysgol ar gyfer Llesiant Emosiynol**

Rhoddodd y Seicolegwyr Addysgol Morwenna Wagstaff a Lucie Doyle y cyflwyniad ac ateb cwestiynau gan aelodau, gydag ymatebion ychwanegol gan Will Mclean a Sharon Randall-Smith.

**Her:**
*A yw'r gwasanaeth yn seiliedig yng Ngwent neu yn Sir Fynwy?*

Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Sir Fynwy ydyn ni, er ein bod yn gweithio'n gynyddol ar lefel rhwydwaith gyda'n chydweithwyr rhanbarthol.

*Mae ADY yn cynnwys gwahanol gyflyrau, sydd angen gwahanol ddulliau gweithredu. Sut y caiff athrawon eu hyfforddi yn y gwahanol feysydd yma?*

Ydyn, rydyn ni'n cwmpasu holl anghenion ADY. Ynghyd â'r gwaith a ddisgrifiwyd yn y cyflwyniad, mae llawer o linynnau eraill i'r gwaith yr ydym yn ymwneud ag ef, yng nghyswllt strategaeth ADY. Yn neilltuol, mae ein ffocws ar blant gyda ADY, cyfathrebu cymdeithasol, awtistiaeth, ymddygiad heriol ac yn y blaen. Fel Gwasanaeth Seicoleg Addysgol rydym yn cynnig haenau o waith: os yw'n ddisgybl cymhleth, byddem yn ymgysylltu o amgylch y plentyn hwnnw'n unigol gyda gweithwyr proffesiynol eraill, staff a rhieni. Medrem wedyn weithio ar lefel ysgol, gan ddynodi beth mae pob ysgol ei angen – os byddai ysgol yn cael budd o hyfforddiant ysgol gyfan mewn ardal neilltuol, er enghraifft. Rydym hefyd yn meddwl ar lefel systemig am yr hyn y gallwn ei gynnig yn y maes hwnnw ar draws yr awdurdod.
*Gan nad oes gennym anghenion ysgol arbennig wedi ei dynodi yn Sir Fynwy, bydd rhai plant yn mynd i'r ysgol tu allan i'r sir. Sut gallwn sicrhau fod y plant mewn ysgol breifat yn cael budd o'r un hyfforddiant a chefnogaeth â rhai mewn ysgolion gwladol?*

Rydym yn y broses o ymchwilio sut i gyflwyno hyfforddiant. Er nad oes gennym ysgol arbenigol mwyach, mae gennym bedair canolfan adnoddau anghenion arbennig. Yr ydym ni (Dr Wagstaff a Dr Doyle) yn rhan o rwydwaith canolfan adnoddau anghenion arbennig ar draws Sir Fynwy, sy'n dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd o ADY, ein gwasanaeth a phob un o'r canolfannau i ddatblygu'r hyfforddiant a'r sgiliau i gefnogi ein plant gyda'r anghenion mwyaf cymhleth. Pan mae gan blentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, rydym yn aml yn ymwneud gyda'r plant hynny sy'n mynychu ysgol tu allan i'r sir, p'un ai yw hynny'n rhan o adolygiadau, gan ddiweddaru cefnogaeth. Gall y rhain fod yn rhai o'n hachosion mwyaf cymhleth. Mae gennym lefel uchel o waith i gefnogi'r plant hynny, gyda'r tîm ADY a chydweithwyr eraill, tebyg i Ofal Cymdeithasol, i sicrhau fod lleoliadau yn addas, bod staff wedi cael hyfforddiant da, a bod ansawdd yr addysg yr hyn y byddem eisiau iddynt.

*Mae'r hybiau yn seiliedig yn yr ysgolion gwladol, ond a yw'r un gefnogaeth ar gael i ysgolion heb fod yn rhai gwladol?*

Byddai ein gwasanaeth yn ymwneud ar lefel unigol, h.y. pe byddai angen hyfforddiant unigol am blentyn o Sir Fynwy yn un o'r ysgolion hynny. Mae'r broses yr awn drwyddi cyn lleoli plant mewn ysgol tu allan i'r sir yn helaeth. Bydd y tîm yn ymwneud yn helaeth mewn gweithio gyda'r ysgol, rhieni a gweithwyr proffesiynol iechyd i gyrraedd diagnosis sy'n arwain at ddatganiad o ADY. Rydym wedyn yn mynd drwy broses helaeth lle'r ydym yn comisiynu lle mewn ysgol arbennig ar gyfer y plentyn hynny, os na allwn ddiwallu eu hanghenion yn un o ganolfannau adnoddau anghenion arbennig yn y sir. Rydym yn adolygu eu datganiad yn flynyddol, mewn ymgynghoriad gyda'r ysgolion. Er y gallai fod angen hyfforddiant penodol weithiau, holl ddiben y broses yw rhoi'r plentyn mewn ysgol lle mae'r ysgol yn darparu'r gefnogaeth ac addysg hynny – byddai'n anarferol, felly, i ni roi hyfforddiant sylweddol i ysgolion arbennig annibynnol, gan mai dyna'r union beth yr ydym yn ei gomisiynu yn y lle cyntaf.

*A ydym wedi medru targedu'r ysgolion a fynychir gan blant o'r aelwydydd mwyaf amddifadus?*

Nid yw cydnerthedd yn sefydlog. Er fod llawer o blant â bywydau cartref anodd, a ffactorau risg ychwanegol, un o'r ffactorau diogelu yw'r berthynas a chefnogaeth a gaiff plant gan ysgolion. Felly er na allwn newid llawer o'r ffactorau seiliedig mewn cartref hyn, gall ysgolion wneud llawer i ddatblygu a magu cydnerthedd. Ddwy wythnos yn ôl, fe wnaethom gynnal hyfforddiant oedd ar gael i'r holl staff ar draws yr ysgolion, lle roedd y ffocws ar fagu cydnerthedd yn dilyn y pandemig. Roedd llawer o adnoddau a deunyddiau yr aeth ysgolion â nhw i ffwrdd gyda nhw, ac fe gawsant yr hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn.. Mae gan ein hysgolion Seicolegydd Addysgol cyswllt penodol sydd mewn cysylltiad i drafod grwpiau neilltuol o blant a fedrai fod ag anghenion neilltuol.

*Bu atchweliad 6-mis mewn mathemateg ar gyfer ein disgyblion Blwyddyn 7 yn Ysgol Brenin Harri VIII - os byddwn yn mynd i gyfnod clo pellach, a ydym mewn risg o golli cenhedlaeth o addysg?*

Mae plant yn cymryd camau yn ôl yn ystod gwyliau'r haf beth bynnag, felly mae'n naturiol i gau hir gael effaith. Mae Gwasanaethau Plant wedi gwneud peth gwaith gyda Sharon Randall-Smith ar grant 'Cau'r Bwlch' gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n gweithio gydag ysgolion i ddatblygu plant mewn modd holistig fel fod yr hyder a chapasiti arall ganddynt pan ddaw i geisio cau'r bwlch.

Sharon Randall Smith: Buom yn gweithio gyda Seicolegwyr Addysgol i edrych sut y gallwn ddefnyddio peth o'n cyllid ar gyfer darpariaeth ddysgu carlam, i gefnogi dysgwyr sydd wedi symud o Bl 6 i Bl 7 yr ydym wedi eu dynodi fel bod yn cael ychydig o drafferth. Rydym wedi edrych sut y byddwn yn cynorthwyo ysgolion yn eu cynllun dysgu carlam, lle mae ganddynt staff ychwanegol i ganolbwyntio'n neilltuol ar lythrennedd a rhifedd, i gyflymu'r cynnydd hwnnw dros y chwe mis nesaf, i gau cymaint ag sydd modd i gau'r bwlch.

*Mae rhieni yn crynhoi wrth glwydi ysgolion yn broblem. A oes ffordd y gallwn ymyrryd fel awdurdod?*
Cytunwn y dylai rhieni ddangos y mathau o ymddygiad y disgwyliwn i blant eu dilyn. Mae'r safleoedd ysgol yn glir iawn am lif symudiad a phellter cymdeithasol. I geisio gostwng y nifer o rieni sy'n ymgasglu mewn rhai lleoedd, rydym yn edrych ar gau ffyrdd mewn rhai ysgolion. Os yn llwyddiannus, byddwn yn ymestyn hyn ymhellach. Tu hwnt i hynny, mae'r berthynas rhwng penaethiaid ysgol a rhieni yn hollbwysig, ond byddai'r neges yn gryfach yn dod gan benaethiaid ysgol eu hunain. Rydym wedi trafod y mater gyda phenaethiaid ysgol yn yr ychydig gyfarfodydd diwethaf a byddwn yn mynd â'r pwynt hwn i'r timau Menter a Gweithrediadau i weld os oes unrhyw beth arall y gallwn ei wneud.

*Sut ydych yn ymdopi i wneud eich gwaith gyda'r cyfyngiadau Covid?*
Rydym wedi bod yn mynd i ysgolion, ac yn dal i wneud hynny, lle mae hynny'n hanfodol, yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru – mae hyn ychydig yn amwys, felly rydym bob amser yn cymryd dull gweithredu sy'n canoli ar yr unigolyn, gan edrych ar yr amgylchiadau unigol. Mewn rhai achosion, mae rhieni yn berffaith alluog i gymryd rhan mewn cyfarfodydd Teams gyda gweithwyr proffesiynol eraill; bu hyn yn eithaf cadarnhaol. Ond mewn achosion eraill, mae angen i ni gael y cyfarfodydd hynny mewn ysgolion, yn unol gydag asesiadau risg. Rydym yn ceisio gwneud cymaint o'n gwaith ar-lein ag sydd modd. Bu ein hysgolion, gweithwyr proffesiynol a rhieni yn wych wrth symud ymlaen gyda hynny.

*Sut mae ELSA yn llwyddo i fynd i mewn heb dorri'r swigod?*
Unwaith eto, mae hyn yn dibynnu ar ysgolion unigol a sut y defnyddiant eu ELSA. Mae galw cryf gan ysgolion i gael mwy o ELSA wedi eu hyfforddi a rydym yn edrych ar y rhwydwaith

cenedlaethol am sut y gellir gwneud hynny, gan ei fod fel arfer wyneb yn wyneb. Mae rhai ysgolion yn rheoli eu ELSA o fewn swigod – byddant yn parhau ynddynt dros gyfnod. Bu hyn yn broblem mewn rhai ysgolion, a dyna pam eu bod angen eisiau mwy o ELSA, yn ymarferol un ym mhob swigen. Mae gan bob ysgol eu hasesiad risg eu hunain fydd yn effeithio sut i ddefnyddio eu ELSA.

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i'r swyddogion am eu gwaith, yn arbennig yn ystod y cyfnod hwn. Rydym wedi trafod pwysigrwydd y pedair canolfan anghenion arbennig wrth gefnogi dysgwyr bregus a chefnogaeth y gwasanaeth i bob plentyn gyda datganiad. Mae gwytnwch yn gysyniad anodd ac yn bwysig iawn ar hyn o bryd ar gyfer staff a phlant: os nad yw staff yn gydnerth, ni fyddant yn medru trosglwyddo'r cydnerthedd hwnnw i'r plant. Mae'r cysylltiadau rhwng cynradd ac uwchradd yn bwysig ac mae mwy o berygl i blant yn cymryd camau'n ôl nawr nag mewn amgylchiadau arferol. Rydym yn falch i glywed am yr holl gefnogaeth barhaus. Mae rhieni yn crynhoi yn parhau i fod yn broblem a rydym yn gobeithio fod yr awdurdod yn gweithredu mesurau tebyg i gau ffyrdd. Mae gwaith parhaus ELSA yn bwysig iawn a rydym yn gwerthfawrogi pa mor anodd yw hi i roi cefnogaeth wyneb yn wyneb yn yr ysgolion. Mae bob amser angen i ni gadw mewn cof yr athrawon sydd ar y rheng flaen..

## 7. Dysgu Cyfunol mewn Ysgolion

Cyflwynodd Sharon Randall yr adroddiad ac atebodd gwestiynau Aelodau, gydag ymatebion ychwanegol gan Will Mclean.

**Her:**
*Mae ymchwil ddiweddar gan Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Addysg yn dangos fod Cymru ar y gwaelod ar gyfer effeithlonrwydd dysgu gartref. Beth sy'n cael ei wneud i drin hyn?*

Mae astudiaethau hydredol yn dangos nad oes, dros gyfnod, gymaint o wahaniaeth rhwng dysgu wyneb i wyneb a dysgu o bell ag a gredid yn wreiddiol. Fel bob amser, bydd yr effaith a'r effeithlonrwydd o ansawdd yr addysgu. Ers y cyfnod clo, mae EAS wedi cefnogi ein hysgolion gyda llawer o gyngor a mynediad i ymchwil ac amrywiaeth o ddysgu proffesiynol, yn cynnwys y sgiliau cyffredinol mae athrawon a chynorthwywyr addysgu eu hangen i ddatblygu a chyflwyno dysgu cyfunol effeithlon. Hefyd, sut i archwilio eu sgiliau, ystyried sut olwg sydd ar ddysgu o bell da a chadw dysgu proffesiynol da i gefnogi hynny. Mae cynorthwywyr addysgu mewn un ysgol wedi bod yn ymwneud yn helaeth â hynny ac yn awr yn ei ledaenu ar draws clystyrau lleol eraill. Yn ychwanegol, fel rhanbarth, rydym yn datblygu pecyn cymorth Sicrwydd Ansawdd fydd yn helpu ysgolion i ddynodi lle mae eu cryfderau a'u gwendidau ond hefyd i werthuso sut mae ansawdd yn dechrau edrych. O gymharu gyda rhanbarthau eraill efallai, rydym wedi gwneud camau breision ymlaen wrth benderfynu sut olwg sydd ar ansawdd.

Cododd un darn o ymchwil gan y Sefydliad Polisi Addysg yr wythnos diwethaf nifer yr oriau cyswllt yn ystod y cyfnod clo yng Nghymru, gan gydnabod fod y camau a gymerodd Cymru wrth ddarparu offer TG y gorau o blith y pedair cenedl. Roedd amrywiaeth o wahanol fesurau yn yr adroddiad oedd yn wahaniaethol, yn dibynnu ar ba un oedd yn cael ei ystyried. Gobeithio y gallwn gymryd y ddau ddarn o ymchwil gyda'i gilydd a dysgu ohonynt.

*A fu asesiad o ba mor dda mae plant prydau ysgol am ddim yn wneud o gymharu â phlant nad ydynt yn erbyn prydau ysgol am ddim? A faint o waith cartref sy'n cael ei wneud o gymharu gyda'r sefyllfa cyn-Covid?*

Yn ystod tymor yr haf, roedd ysgolion yn awyddus iawn i olrhain ymgysylltu pob dysgwr, gyda ffocws neilltuol ar ddisgyblion bregus a'r rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Roedd ysgolion

yn cadw cysylltiad rheolaidd i sicrhau fod yr holl offer, gwybodaeth a chymorth angenrheidiol ganddynt. Ar gyfer dysgwyr bregus nad oedd yn ymgysylltu lawn cystal, fe wnaethom edrych ar ymgysylltu drwy fynychu hybiau neu wahanol fathau o gefnogaeth y gallem ei rhoi iddynt. Yn sicr, rydym yn cadw golwg agos ar ddisgyblion prydau ysgol am ddim ac yn ymgysylltu. Mae gennym gyfarfodydd yn fuan gydag ysgolion i fynd drwy eu cynlluniau datblygu ac i edrych ar eu cynlluniau Dysgu Carlam, a sut y byddant yn cefnogi disgyblion prydau ysgol am ddim. Yr adborth a roddir i ddisgyblion yw llawer o'r dysgu gorau – mae hynny'n dal i fod yn bosibl iawn gyda model dysgu o bell neu ddysgu cyfunol. Bu rhai ysgolion yn defnyddio techneg a elwir yn ddysgu Blip lle mae llawer o'r dysgu yn digwydd yn annibynnol neu mewn grwpiau bach, ac yna ddod i'r ystafell ddosbarth gyffredinol i'r athro roi adborth. Mae'r adborth felly yn fwy cadarnhaol ac uniongyrchol i'r dysgwyr. Yn gynnar iawn roedd athrawon yn ceisio rhoi adborth ffurfiol yn yr un ffordd ag a wnaethant bob amser, a ddaeth yn llethol i fyfyrwyr ac athrawon. Daeth pethau yn fwy hylaw ac effeithlon dros gyfnod. Bydd rhai asesiadau ar-lein ond nid hwy fydd y ffordd orau a mwyaf effeithlon o ddysgu.

*O gofio am bopeth sy'n digwydd, a oes dadl dros oedi gweithredu'r cwricwlwm newydd?*

Dysgu cyfunol yw'r ffordd orau ymlaen i ni gyflwyno'r cwricwlwm fel bod plant yn cael cyfle i ddatblygu'r sgiliau hynny drwy amrywiaeth o gyd-destunau i wneud dysgu yn realistig iddyn nhw ac iddynt fanteisio ohono. Cafodd y broses ei chyflwyno ychydig ynghynt nag a gredem, deallwn yr ymddengys fod y cwricwlwm yn dod tuag at ysgolion yn gyflym iawn. Ond, mae'n eithaf annhebygol os bydd ysgolion fod yn ôl i'r arfer ac yn rhedeg yn berffaith bryd hynny, o gofio am yr amgylchiadau presennol. Tanlinellwyd y pwynt hwnnw mewn arolwg diweddar. Mae ysgolion wedi gwneud llawer o waith eisoes wrth symud ymlaen i gyflenwi'r cwricwlwm newydd, ond rydym yn derbyn na fydd yn berffaith; mewn gwirionedd, mae'n debyg na fyddai wedi bod hyd yn oed pe na fyddem wedi cael y pandemig. Mae'r cyfnod hwn wedi rhoi cyfle i'n hysgolion, ac yn neilltuol y clystyrau, i rannu adnoddau; er enghraifft, mae gan un clwstwr gronfa ddata a gaiff ei rhannu y caiff enghreifftiau o ymarfer ac adnoddau ei lanlwytho arni ar gyfer pawb. Mae hyn yn gwneud y broses yn fwy hylaw.

*Mae'r 55 cyfeiriad 'gorfodol' yn y Bil yn ymddangos yn groes i ymagwedd gyffredinol cwricwla lleol; ar y llaw arall, nid oes unrhyw gyfeiriad at 'orfodol' yn Neddf Addysg 1996.*

Rydym yn deall y pwynt hwn. Pan wnaethom ni, fel rhanbarth, adolygu ein barn ar y cwricwlwm ac os y dylai barhau fel y mae, fe wnaethom hefyd edrych ar ymatebion gan benaethiaid ysgol, undebau llafur, grwpiau penaethiaid uwchradd ac yn y blaen i ddeall sut y caiff ei deimlo yn yr ysgol sy'n ei gyflwyno. Teimlai'r rhan fwyaf fod yr hyblygrwydd sydd gan ysgolion wrth weithio nawr yn gefnogol, a bod yr hyblygrwydd yn y cwricwlwm newydd yn eu galluogi i wneud profiadau dysgu yn werthfawr a gwerth chweil.

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Cawsom sicrwydd am ddysgu cyfunol. Bydd yn parhau, felly gorau'n y byd y mae ysgolion yn dod wrth ei gyflwyno a'r mwyaf o gefnogaeth y gall yr awdurdod ei roi. Codwyd cwestiynau diddorol am NFER, y gallem eu hystyried yn y dyfodol, a mater perfformiad disgyblion prydau ysgol am ddim – y mae'r pwyllgor hwn bob amser yn bryderus amdano. Efallai y byddai disgyblion o gefndir mwy cefnogol yn canfod fod dysgu cyfunol ychydig yn rhwyddach. Rydym yn awyddus i olrhain ymgysylltiad dysgwyr. Codwyd materion am ddysgu o bell; bydd y pwyllgor hwn yn dychwelyd at hynny. Clywsom bryderon am y cwricwlwm newydd; ond cawsom sicrwydd am ymagwedd hyblyg ysgolion.

## 8. <u>Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc</u>

Cynigir cyfarfod ychwanegol ar gyfer mis Tachwedd lle rhoddir diweddariad ar gyn ddisgyblion Tŷ Mounton a darpariaeth ADY yn yr awdurdod. Bydd y cyfarfod ym mis Rhagfyr yn cynnwys papur ar ddigartrefedd ac adolygiad o ddarpariaeth chwarae. Mae hefyd angen rhoi sylw i ddarpariaeth Gymraeg yn Nhrefynwy: cynigir fod hyn hefyd yn cael ei drafod yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr.

Holodd y swyddog Will Mclean am ddilysrwydd cynnwys cyn ddisgyblion Tŷ Mounton gan y cafodd ei drin yn flaenorol ac y daeth y mater i ben. Awgrymodd y Cynghorydd Brown y byddai diweddariad yn fuddiol i'r pwyllgor, yn gydnaws gyda chraffu darpariaeth ADY, a byddai ganddynt ddiddordeb clywed am y gwahanol ddulliau e.e. byw amgen yng Nghasnewydd. Croesawodd Will Mclean graffu manwl ar ADY ond mynegodd bryder y gallai dilyn lan ar gynnydd cyn ddisgyblion Tŷ Mounton o bosibl dramgwyddo ar eu hawl i fod yn anhysbys. Gofynnodd y Cynghorydd Groucott am ddiweddariadau rheolaidd am ddarpariaeth Gymraeg yn y Fenni. Cytunodd Will Mclean a nododd y bydd yr eitem ym mis Rhagfyr yn cynnwys agweddau ehangach darpariaeth Gymraeg, heb ei chyfyngu i Drefynwy yn unig.

**9. <u>Cynllun Gwaith y Cyngor a'r Cabinet</u>**

**10. <u>Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol</u>**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion.

**11. <u>Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u>**

Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 8 Rhagfyr 2020, yn disgwyl cadarnhad cyfarfod ym mis Tachwedd.

The meeting ended at **1.46 pm**